Y dewis cywir i Gymru

Ein penderfyniadau mewn perthynas â chymwysterau Cymraeg y dyfodol

Cynnwys

Rhagair	Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	2
1.	Ein penderfyniadau yn gryno	3
2.	Cefndir ein penderfyniadau	3
3.	Y cyd-destun ehangach	5
4.	Ein penderfyniadau	7
5.	Camau nesaf	21
6.	Asesiad Effaith Integredig	22

Rhagair

Ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Cwricwlwm newydd i Gymru, sy'n anelu at roi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr lwyddo drwy addysg eang a chytbwys, roeddem yn gwybod bod yn rhaid i ni ddechrau sgwrs ehangach ar sut olwg ddylai fod ar gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed.

Ar ôl ymgynghori â 1,500 o ddysgwyr, rhieni, athrawon, darlithwyr, a chyflogwyr yn gynnar yn 2021, gwnaethom nodi ein gweledigaeth ar gyfer cymwysterau'r dyfodol yn ein hadroddiad penderfyniadau a gyhoeddwyd fis Hydref diwethaf. Fodd bynnag, penderfynwyd cadw ein penderfyniad ar gymwysterau Cymraeg yn ôl er mwyn i ni ystyried y cymwysterau ynghyd â bwriadau polisi iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, rydym nawr yn gallu cyhoeddi ein penderfyniad ar y cymwysterau Cymraeg a fydd ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o 2025.

Credwn y bydd y cymwysterau Cymraeg newydd hyn yn rhoi cyfle teg a chyfartal i ddysgwyr gyflawni yn y Gymraeg, ni waeth pa fath o ysgol y maent yn ei mynychu. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion, colegau ac eraill ledled Cymru wrth i ni geisio cyd-greu'r cymwysterau newydd hyn a chynllunio sut y dylent edrych o ran cynnwys, dyluniad ac asesiad.

Rydym am i bob dysgwr allu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus o fewn continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg, sy'n cynnwys dysgwyr ag ychydig neu ddim profiad o'r iaith hyd at y rhai sydd â hyfedredd yn yr iaith. Mae cymwysterau Cymraeg ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg wedi bod yn datblygu'n barhaus yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gyda disgwyliadau eisoes wedi cael eu codi yn y TGAU ddiwygiedig a gafodd ei chyflwyno i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mid Medi 2017.

Mae'r newidiadau a amlinellir o 2025 yn gam sylweddol yn y cyfeiriad cywir wrth i ni ymdrechu i greu cenedl gwbl ddwyieithog. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i barhau i addasu a newid y cymwysterau hyn dros y degawd nesaf, wrth i ni weithio â phartneriaid a rhanddeiliaid eraill i ddilyn gyda'n gilydd uchelgeisiau Cymraeg 2050, ac yn y pen draw y nod o gynnig un cymhwyster yn unig i bob dysgwr yng Nghymru.

David B Jones OBE DL
Cadeirydd, Cymwysterau Cymru

Philip Blaker
Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru

1. Ein penderfyniadau yn gryno

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn egluro ein penderfyniadau mewn perthynas â chymwysterau Cymraeg y dyfodol a fydd ar gael i bobl ifanc 14–16 oed.

1.2. Byddwn yn creu set o dri chymhwyster Cymraeg newydd fel a ganlyn:

Penderfyniad 1: Byddwn yn cyfuno iaith a llenyddiaeth ac yn creu TGAU integredig newydd yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Penderfyniad 2: Byddwn yn dod â TGAU Cymraeg Ail Iaith i ben ac yn creu TGAU newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Penderfyniad 3: Byddwn yn creu cymhwyster ychwanegol newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg.

1.3. Byddwn yn mynd â phob un o'r tri chymhwyster hyn ymlaen i'r cam nesaf, a fydd yn golygu gweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu gofynion sylfaenol y cymhwyster.

2. Cefndir ein penderfyniadau

2.1. Rhwng 27 Ionawr a 16 Ebrill 2021, buom yn ymgynghori ar yr ystod o bynciau ar gyfer y dyfodol y dylid creu TGAU newydd sbon a chymwysterau cysylltiedig a wnaed i Gymru ynddynt.

2.2. Hwn oedd yr ail yn ein cyfres o ymgynghoriadau *Cymwys ar gyfer y Dyfodol* i gytuno ar y genhedlaeth nesaf o gymwysterau ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed yng Nghymru.

2.3. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a oedd yn ymwneud yn benodol â chymwysterau Cymraeg y dyfodol. Y rhain oedd:

- **Cynnig 1:** Creu TGAU Cymraeg iaith a llenyddiaeth gyfun newydd i ddisodli'r cymwysterau TGAU presennol sy'n cael eu cynnig ar wahân. Byddai'r cymhwyster TGAU cyfun newydd hwn oddeutu maint un TGAU a hanner.

Roedd y cynnig hwn yn adlewyrchu ein hymagwedd at greu TGAU iaith a llenyddiaeth gyfun newydd ar gyfer Saesneg.

- **Cynnig 2:** Rhoi'r gorau i TGAU Cymraeg Ail Iaith a chreu TGAU newydd, fwy o faint wedi'i chynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg sy'n adlewyrchu disgwyliadau Canllawiau'r Cwricwlwm. Byddai'r cymhwyster newydd oddeutu maint un TGAU a hanner.

- **Cynnig 3:** Creu cyfres o gymwysterau bach sgiliau iaith Gymraeg y gellir eu hastudio yn ychwanegol at gymhwyster TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm Cymraeg.

2.4. Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd ein penderfyniadau ymgynghori ar yr ystod o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig eraill a wnaed i Gymru. Gan ystyried ymatebion yr ymgynghoriad, gwnaethom benderfynu gweithredu'r rhan fwyaf o'r rhai a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, ar ôl dadansoddiad gofalus, gwnaethom benderfynu gohirio ein penderfyniadau mewn perthynas â chymwysterau Cymraeg tan ddechrau 2022. Roedd hyn er mwyn caniatáu amser ar gyfer adolygiad pellach o'r cynigion ochr yn ochr ag opsiynau posibl eraill a lywiwyd gan fwriadau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer un continwwm iaith ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg ('y continwwm Cymraeg') fel rhan o weithredu'r cwricwlwm neu unrhyw waith polisi ehangach.

2.5. Gwnaeth ein cynigion ar gyfer cymwysterau Cymraeg ddenu ystod o wahanol safbwyntiau a lefelau gwahanol o gefnogaeth. Roedd hyn yn arbennig o wir am y cynigion yn ymwneud â chymwysterau mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Roedd yn amlwg fod safbwyntiau gwahanol ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'n cynigion. Daethom i'r casgliad mai ailedrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael i ni ar gyfer y Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg oedd y cam gweithredu mwyaf priodol.

2.6. O ystyried y gallai ein penderfyniadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg effeithio ar yr hyn y byddem yn penderfynu arno yn y pen draw mewn perthynas â chymwysterau ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gwnaethom ohirio pob un o'r tri chynnig.

2.7. Ers hynny, rydym wedi parhau i archwilio'r opsiynau ar gyfer cymwysterau Cymraeg y dyfodol. Mae hyn wedi cynnwys cynnal asesiad effaith manwl a chynnal trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y

penderfyniadau a wnawn yn cyd-fynd â chyfeiriad ei pholisi ar gyfer y Gymraeg.

2.8. Rydym hefyd wedi parhau i ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys:

- CBAC
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Consortia Addysg Rhanbarthol
- CYDAG
- Cymdeithas yr Iaith
- Cynrychiolwyr addysg uwch gan gynnwys adrannau HCA
- Dysgwyr
- Estyn
- Llywodraeth Cymru
- Rhwydwaith Seren
- Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- Timau arweinyddiaeth ysgolion
- Ymarferwyr Cymraeg o leoliadau cyfrwng Saesneg

2.9. O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym wedi dod i'r penderfyniadau a gyflwynir yn y ddogfen hon.

3. Y cyd-destun ehangach

3.1. Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweld mwy o ddysgwyr yn gadael addysg orfodol fel defnyddwyr hyderus o'r Gymraeg ac mae wedi nodi ei gweledigaeth yn ei strategaeth Gymraeg, sef Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

3.2. Bydd cyflawni'r weledigaeth hon yn gofyn am ystod o ymyriadau ar draws polisïau addysg. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad deddfwriaethol i gryfhau a chynyddu darpariaeth addysg Gymraeg er mwyn symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith ac i ddatblygu gweithlu cynyddol sy'n gallu dysgu'r Gymraeg, ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.3. Rydym wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf ein bod yn cefnogi ac wedi ymrwymo'n llwyr i gyfrannu at strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Fel y dywedasom yn yr ymgynghoriad, gall penderfyniadau ynghylch pa

gymwysterau i'w cynnig a sut y dylid eu cynllunio a'u hasesu helpu i gyfrannu at ddull cenedlaethol gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

3.4. Gwyddom fod angen i gymwysterau Cymraeg newid; mae'n rhaid i hyn gael ei arwain gan y cwricwlwm. Mae Canllawiau Cwricwlwm i Gymru ('Canllawiau') ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ('Maes') yn cyflwyno'r cysyniad o gontinwwm iaith Gymraeg. Mae'n cynnwys cyfres ar wahân o ddisgwyliadau (a fynegir fel 'disgrifiadau dysgu') ar gyfer y cynnydd y disgwylir i ddysgwyr ei wneud wrth ddysgu Cymraeg os ydynt yn astudio mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyflymder gwahanol y gellir disgwyl i ddysgwyr ddatblygu eu gallu ieithyddol yn dibynnu a ydynt yn derbyn y rhan fwyaf o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg. Mae perthynas glir rhwng y ddwy set o ddisgwyliadau sy'n caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen ar hyd un continwwm Cymraeg.

3.5. Mae'r Canllawiau'n adlewyrchu'r ffaith y byddai'n anodd i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg gyrraedd yr un lefel ieithyddol â dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gan fod ganddynt lai o gysylltiad â'r iaith. Er bod y ffiniau rhwng gwahanol leoliadau addysg yng Nghymru wedi meddalu, mae'r Cwricwlwm i Gymru serch hynny yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r gwahaniaethau sy'n parhau rhwng lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

3.6. Yn y cyd-destun hwn y buom yn archwilio'r cwestiwn o sut y dylai continwwm y Gymraeg, sy'n gosod disgwyliadau a deilliannau dysgu gwahanol i ddysgwyr yn dibynnu ar eu lleoliad, gael ei adlewyrchu mewn cymwysterau.

3.7. Fel rhan o'n penderfyniadau, buom yn ystyried nifer o fodelau a strwythurau. Yn yr ymgynghoriad buom yn trafod yn benodol y posibilrwydd o gael cymhwyster TGAU cynhwysfawr newydd i ddisodli'r cymwysterau TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol. Wrth wneud hynny, gwnaethom esbonio'r rhesymau pam na fyddai'n bosibl ar hyn o bryd i gynllunio un cymhwyster yn unig a allai asesu pob dysgwr ym mhob lleoliad yn deg ac yn ddibynadwy. Mae maint y gwahaniaeth rhwng disgwyliadau'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg ac ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhy fawr i'w cwmpasu o fewn un cymhwyster.

3.8. Ers yr ymgynghoriad rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn yn gyson â'i nodau polisi ar gyfer y Gymraeg.

3.9. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio tuag at ein huchelgais tymor hwy o gyflwyno un cymhwyster Cymraeg i bob dysgwr.

4. Ein penderfyniadau

4.1. Rydym wedi ailwerthuso'r holl opsiynau ac wedi penderfynu ar y cymwysterau Cymraeg y dylid eu datblygu a'u darparu ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yn y dyfodol.

4.2. Byddwn yn creu set o dri chymhwyster Cymraeg newydd i alinio â'r Cwricwlwm i Gymru ac adlewyrchu'r continwwm ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg. Mae'r cymwysterau fel a ganlyn:

Penderfyniad 1: Byddwn yn cyfuno iaith a llenyddiaeth ac yn creu TGAU integredig newydd yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Penderfyniad 2: Byddwn yn dod â TGAU Cymraeg Ail Iaith i ben ac yn creu TGAU newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Penderfyniad 3: Byddwn yn creu cymhwyster ychwanegol newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg.

4.3. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, gwnaethom ystyried yn ofalus yr ymatebion i'n hymgynghoriad yn ogystal â chanlyniadau ein hymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid. Gwnaethom hefyd ystyried effaith bosibl ein penderfyniadau o ran yr effaith ar y rheini â nodweddion gwarchodedig, yr effaith ar y Gymraeg a'r baich rheoleiddio. Yn yr adran hon rydym yn egluro ein penderfyniadau mewn perthynas â phob cymhwyster newydd.

Penderfyniad 1: Byddwn yn cyfuno iaith a llenyddiaeth ac yn creu TGAU integredig newydd yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

4.4. Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â'r cynnig gwreiddiol a gyflwynwyd gennym yn yr ymgynghoriad. Mae'n adlewyrchu'r penderfyniad yr ydym wedi'i wneud i greu TGAU integredig newydd Saesneg sy'n cyfuno iaith a llenyddiaeth.

4.5. Ymatebodd cyfanswm o 435 o bobl yn yr ymgynghoriad i'r cynnig hwn, a'r grŵp unigol mwyaf oedd gweithwyr addysg proffesiynol (251). Roedd mwy na hanner (56%) yr ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig, gyda thua dau o bob pump (39%) yn anghytuno'n gryf. Roedd llai na thraean (30%) yn cytuno. Pan ystyriwn y data gan wahanol grwpiau o randdeiliaid, roedd dysgwyr yn llawer mwy cefnogol i'r cynnig, gyda hanner yn cytuno (50%) o'i gymharu ag ychydig llai na chwarter (24%) y gweithwyr addysg proffesiynol. O'r 435 o bobl a ymatebodd i'r cynnig, rhoddodd 292 o bobl (67%) sylw ysgrifenedig hefyd.



4.6. Yn ein hymgynghoriad, esboniwyd ein rhesymau dros y cynnig hwn gan gynnwys:

- sicrhau darpariaeth gyfartal i ddysgwyr o fewn ac ar draws ysgolion, gan roi cyfle i fwy o ddysgwyr astudio llenyddiaeth;
- mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr gael mwy o ddewis ynghylch pa gymwysterau eraill y maent am eu hastudio;
- cefnogi'r pedwar datganiad o'r hyn sy'n bwysig i'r Maes hwn, gan gynnwys helpu dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng iaith a llenyddiaeth.

4.7. Roedd gan y rhai a gytunodd â'n cynnig nifer o resymau am wneud hynny. Roedd llawer yn gefnogol i'r syniad o astudio'r iaith yn ei chyfanrwydd ac annog mwy o ddysgwyr i ymgysylltu â llenyddiaeth, tra bod eraill yn teimlo y byddai cyfuno cymwysterau iaith a llenyddiaeth yn lleihau dyblygu ac yn gwella cydbwysedd cyffredinol cynnwys cymwysterau. Roedd creu mwy o gyfleoedd i

ddysgwyr wneud cysylltiadau rhwng y ddwy elfen hefyd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol.

4.8. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen am gwricwlwm eang a chytbwys ac felly roeddent yn cefnogi lleihau nifer y cymwysterau TGAU yn y Maes hwn er mwyn caniatáu mwy o amser i ddysgwyr astudio pynciau eraill. Roedd eraill yn croesawu mwy o gysondeb rhwng cymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg ac yn cytuno â chael gwared ar asesu haenog.

4.9. Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn, roedd pryder cyffredin ynghylch y maint arfaethedig. Teimlai rhai y gallai disodli dwy TGAU ar wahân gydag un cymhwyster tua'r un maint yn fras ag un TGAU a hanner o bosibl ddibrisio'r pynciau a lleihau eu statws o fewn cwricwlwm y Cwricwlwm i Gymru. I'r perwyl hwnnw, roedd llawer yn teimlo bod y cysyniad o un TGAU a hanner yn ddryslyd ac y dylid cynllunio unrhyw gymwysterau newydd naill ai fel dyfarniad sengl neu ddwbl.

4.10. Mae'n werth nodi bod pob ysgol yn penderfynu sut i drefnu ei chwricwlwm a'i hamserlen ei hun. Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y penderfyniadau hyn, gan gynnwys Canllawiau'r Cwricwlwm a maint dangosol cymwysterau. Mae maint cyffredinol cymhwyster yn adlewyrchu ei gynnwys a'i asesiad.

4.11. Rydym yn dal i ddisgwyl y bydd integreiddio iaith a llenyddiaeth mewn un cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ddileu rhywfaint o'r dyblygu yn y ffordd y caiff y pynciau hyn eu haddysgu a'u hasesu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, wrth ystyried, rydym yn cydnabod y gallem fod wedi bod yn gliriach wrth drafod maint y cymhwyster. Rydym wedi ystyried y safbwyntiau a rannwyd gan ymatebwyr ac rydym am fod yn glir nad oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ynghylch maint y cymhwyster hwn nac unrhyw gymhwyster newydd arall. Bydd maint cyffredinol y cymhwyster yn cael ei benderfynu wrth i ni weithio gyda rhanddeiliaid i bennu cynllun, cynnwys a dulliau asesu'r cymhwyster.

4.12. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo y byddai cyfuno cymwysterau iaith a llenyddiaeth yn cael effaith negyddol ar y dysgwyr hynny sy'n llai abl i ymgysylltu â llenyddiaeth ac sydd â'r opsiwn ar hyn o bryd i ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar iaith. Yn eu barn nhw, gallai dull a fyddai o bosibl yn canolbwyntio llai ar sgiliau iaith a gramadeg effeithio'n negyddol ar sgiliau llythrennedd y dysgwyr hyn. Codwyd pryderon tebyg mewn perthynas â

dysgwyr mwy galluog, a'r risg y gallai'r cymhwyster newydd gael ei wanhau er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i gynifer o ddysgwyr â phosibl.

4.13. Er ein bod yn cydnabod y pryderon hyn, rydym yn hyderus y gellir mynd i'r afael â'r risgiau posibl hyn drwy ddyluniad y cymhwyster newydd, a thrwy arfer addysgu effeithiol. Er bod gan gymwysterau ran i'w chwarae yn y ddau achos hynny, credwn mai mater o addysgeg yw hyn yn bennaf.

4.14. Cawsom nifer o awgrymiadau ar sut y gallai cynnwys a threfniadau asesu ar gyfer y cymhwyster newydd hwn newid. Roedd y rhain yn cynnwys:

- yr angen i drefniadau asesu gynnwys cyfuniad o asesu diarholiad (NEA) ac arholiadau;
- adfer gwaith cwrs i wneud iawn am y cynnwys ychwanegol posibl;
- dylai'r cynnwys diwygiedig fod yn ddiddorol, ac adlewyrchu llenyddiaeth a thestunau pwysig a chyfredol o Gymru;
- mwy o bwyslais ar siarad a gwrando;
- dylid cymryd gofal i osgoi gorlwytho cynnwys, ac i sicrhau profiad cadarnhaol i ddysgwyr, ac
- angen sicrhau nad yw cyfuno iaith a llenyddiaeth yn cael effaith negyddol ar sgiliau iaith dysgwyr.

4.15. Fel rhan o'r broses ddiwygio, byddwn yn rhannu'r safbwyntiau hyn â rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda ni i lunio cymwysterau newydd.

4.16. Mae'n ymddangos bod llawer o'r amheuon a fynegwyd mewn ymateb i'n cynigion yn deillio, yn rhannol o leiaf, o'r ffaith fod astudio iaith a llenyddiaeth fel cymwysterau ar wahân wedi'i hen sefydlu ac wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y system.

4.17. Mae'r syniad bod llenyddiaeth ac iaith yn ddau bwnc annibynnol ac ar wahân yn ddyfais artifisial hanesyddol. Ni ddylid ystyried bod cyfuno'r cymwysterau hyn yn cyfuno astudio iaith a llenyddiaeth fel pe baent yn ddwy elfen wahanol a digyswllt. Yn hytrach dylid ei ystyried yn integreiddiad sy'n helpu i osgoi'r rhaniad artiffisial hwn ac yn dechrau gyda'r rhagdybiaeth fod llenyddiaeth wedi'i gwneud o iaith, ac mai gwerthfawrogiad o sut mae iaith yn gweithio sy'n galluogi dysgwyr i fwynhau a gwerthfawrogi llenyddiaeth.

4.18. Er enghraifft, mae medrau llefaredd yn draddodiadol wedi cael eu hasesu mewn cymwysterau iaith yn hytrach na llenyddiaeth. Mewn cymhwyster TGAU

integredig fodd bynnag, gallai llenyddiaeth fod yn ganolbwynt allweddol ar gyfer siarad a gwrando. Byddai dull o'r fath yn gyson â Chanllawiau'r Cwricwlwm, sy'n nodi'n glir,

> '...y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd'[1] ac y gall llenyddiaeth 'yn ei holl ffurfiau... ein hysbrydoli a'n cymell, gan ein helpu hefyd i ddysgu mwy am iaith a chyfathrebu'.[2]

4.19. Fel y dywedasom yn ein hymgynghoriad, byddai creu cymhwyster TGAU Cymraeg integredig yn y Maes hwn yn sicrhau darpariaeth deg i ddysgwyr o fewn ac ar draws ysgolion. Gwyddom mai dim ond fel pwnc dewisol y cynigir TGAU Cymraeg Llenyddiaeth mewn rhai ysgolion ar hyn o bryd. Bydd TGAU integredig yn cefnogi'r disgwyliad a nodir yng Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr ymgysylltu'n gyfartal â phob un o'r pedwar datganiad o'r hyn sy'n bwysig ym Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

4.20. Byddai parhau i wahanu'r ddwy elfen ar lefel TGAU yn mynd yn groes i'r disgwyliadau a amlinellir uchod. Byddai hefyd yn ysgaru llenyddiaeth - un o'r pedwar datganiad o'r hyn sy'n bwysig - o'r tri sy'n weddill.

4.21. Mae cymhwyster TGAU integredig yn cynnig cyfle i lunio tasgau y gellir eu hasesu o safbwynt iaith a llenyddiaeth. Er enghraifft, gellid astudio testunau yn fanwl ar gyfer agweddau penodol ar wybodaeth lenyddol, neu gellid defnyddio sawl testun i amlygu nodwedd ieithyddol - byddai ffocws y ddau ddull ar iaith ond gyda phwyslais gwahanol ar gyfer dealltwriaeth y dysgwyr.

4.22. Ni ddylai dilyniant i Safon Uwch gael ei effeithio'n andwyol, gan fod Safon Uwch Cymraeg eisoes yn cyfuno iaith a llenyddiaeth.

4.23. Rydym yn deall y bydd cyfuno iaith a llenyddiaeth yn parhau i fod yn benderfyniad amhoblogaidd ymhlith rhai rhanddeiliaid. Ar ôl ystyried yr holl bwyntiau a godwyd, rydym yn dal o'r farn mai creu TGAU integredig yn y Maes hwn yw'r ffordd orau o gyflwyno addysg eang a chytbwys i ddysgwyr. Mae integreiddio iaith a llenyddiaeth yn darparu model effeithiol a deniadol i ddysgwyr ac athrawon.

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/

Penderfyniad 2: Byddwn yn dod â TGAU Cymraeg Ail Iaith i ben ac yn creu TGAU newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

4.24. Byddwn yn dod â TGAU Cymraeg Ail Iaith i ben ac yn creu TGAU newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Ni fydd y cymhwyster newydd bellach yn cael ei alw'n Cymraeg Ail Iaith, gan gefnogi'r cysyniad o gontinwwm iaith ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg a dynodi y bydd yn sylweddol wahanol i'r cymhwyster presennol.

4.25. Bydd y cymhwyster newydd o leiaf yr un maint a'r un galw â'r TGAU bresennol mewn Cymraeg Ail Iaith. Mae hwn yn newid i'r cymhwyster a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad, y dywedasom y dylai fod tua maint un TGAU a hanner. Wrth adolygu ein safbwynt, rydym wedi ystyried y safbwyntiau a rannwyd gyda ni gan ymatebwyr, fel y manylir isod.

4.26. Yn yr ymgynghoriad, ymatebodd cyfanswm o 416 o bobl i'r cynnig, gyda 30% yn cytuno a 44% yn anghytuno. Yn gyffredinol, roedd tri o bob deg (31%) o ymatebwyr yn anghytuno'n gryf â'r cynnig. Ymhlith gweithwyr proffesiynol addysg, roedd 47% yn anghytuno; ymhlith rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd, cododd hyn i 59%; tra ymhlith dysgwyr fe gwympodd i 31%. Rhoddodd 226 (54%) o'r bobl a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig.



4.27. Gwelodd y cynnig hwn lefel gymharol uchel o anghytuno. Efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried yr amrywiaeth o safbwyntiau a glywsom gan randdeiliaid dros nifer o flynyddoedd ar y mater hwn.

4.28. Roedd y rhai a oedd yn cytuno â'n cynnig yn mynegi cefnogaeth i barhau i addysgu a dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. O'r rheini, roedd rhai yn gallu gweld y byddai gwella'r cymhwyster yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ysgolion drin y Gymraeg a Saesneg yn gyfartal, a thrwy hynny roi mwy o statws i'r Gymraeg fel pwnc.

4.29. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cytuno â'r nod o adeiladu ar gryfderau a llwyddiannau'r cymhwyster presennol. Cafodd TGAU Cymraeg Ail Iaith ei diwygio yn 2017 i wella'r ddarpariaeth Gymraeg i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg ac i gynyddu lefel yr her a'r galw. Wrth gytuno â'r cynnig, roedd yr ymatebwyr hyn yn ei weld fel cyfle i archwilio'r potensial ar gyfer cynyddu lefel yr her a'r galw ymhellach fyth nawr bod y gwelliannau hyn wedi'u gwreiddio.

4.30. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn gweld bod rhoi'r gorau i'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol i greu cymhwyster newydd, a thrwy hynny gael gwared ar y term Cymraeg Ail Iaith, yn gam cadarnhaol – un a fyddai'n meithrin hyder dysgwyr i barhau i ddysgu a mwynhau siarad Cymraeg a'u helpu wrth iddynt symud ymlaen i fyd gwaith.

4.31. Canolbwyntiodd rhai ymatebwyr ar yr angen am newidiadau systemig mwy sylfaenol fel gwneud addysg cyfrwng Cymraeg yn orfodol o 3 oed ymlaen, gyda'r angen i ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer cynyddu a gwella'r gweithlu i gefnogi'r newidiadau hyn. Mae'r rhain yn faterion i Lywodraeth Cymru ac felly tu allan i'n cylch gwaith fel rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol.

4.32. Clywsom awgrymiadau hefyd ynghylch sut y gellid gwella cymhwyster newydd wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- sicrhau bod y cymhwyster yn gyfoes ac yn ddeinamig trwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith mewn cyd-destunau dilys;
- darparu mwy o gyfle i ddysgwyr astudio cyfryngau a thestunau llenyddol Cymraeg;

- cynnwys mwy o elfennau sy'n ehangu dealltwriaeth dysgwyr o'r diwylliant a'r etifeddiaeth sy'n amgylchynu'r iaith, a
- chynnwys mwy o ddefnydd o dechnoleg, fel apiau a gwefannau Cymraeg, i gynyddu hyfedredd yn y Gymraeg.

4.33. Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau hyn wrth i ni symud ymlaen i'r cam nesaf yn y broses ddiwygio ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu ar gynllun a chynnwys y cymhwyster.

4.34. Lle roedd ymatebwyr yn anghytuno â'n cynnig, mynegwyd pryderon yn gyffredinol ganddynt yn y meysydd a ganlyn:

- maint y cymhwyster a'r effaith bosibl ar amser addysgu ar gyfer Saesneg a phynciau eraill;
- poblogrwydd, cynnwys a pherthnasedd y pwnc;
- addasrwydd ar gyfer pob dysgwr; ac
- aliniad â Chwricwlwm i Gymru a'r continwwm iaith ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg.

4.35. O ran maint a chynnwys, mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch gwerth cymhwyster cyfwerth ag un TGAU a hanner, ac a fyddai'n cael ei gydnabod gan sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr. Roeddent hefyd yn cwestiynu sut y byddai maint y cymhwyster newydd hwn yn effeithio ar system amserlennu ysgolion. I'r perwyl hwnnw, teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn y dylai'r cymhwyster barhau fel un TGAU ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, ac y dylid rhoi blaenoriaeth i gynyddu lefel y galw. Teimlai eraill y byddai cynyddu ei faint yn gwneud y Maes hwn yn drymach nag eraill, gan leihau dewis i ddysgwyr mewn Meysydd eraill.

4.36. Cododd eraill bryderon ynghylch y posibilrwydd o golli amser addysgu a dysgu Saesneg yn sgil y cynnig hwn, ac o ganlyniad ei effaith ar sgiliau llythrennedd Saesneg. Gwnaed pwynt tebyg mewn perthynas ag ieithoedd rhyngwladol, gyda rhai ymatebwyr o'r farn fod y gostyngiad mewn dysgwyr yn astudio'r pynciau hynny yn ganlyniad i'r ffaith fod yn rhaid i ddysgwyr astudio'r Gymraeg fel ail iaith. Nid oedd hyn, yn eu barn nhw, yn cyd-fynd yn dda â nodau a dibenion y Cwricwlwm i Gymru, yn fwyaf nodedig creu dinasyddion gwybodus yng Nghymru a'r byd.

4.37. Yn ein hymgynghoriad, esboniwyd ein rhesymau dros gynyddu maint y TGAU. Gallai creu TGAU mwy na'r un presennol annog ysgolion i roi mwy o amser i

addysgu a phrofiadau Cymraeg. Gallai hyn roi cyfle i ddysgwyr gyrraedd lefel uwch o hyfedredd a chaniatáu i'r cymhwyster newydd asesu cynnwys mwy heriol na'r cymhwyster presennol. Ein nod hefyd oedd helpu i sicrhau darpariaeth gyfartal i bob dysgwr ym mhob lleoliad, gan i ni nodi y byddai'r maint yn debyg i'r TGAU Cymraeg integredig newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Gallai hyn helpu i gyflawni nod polisi Llywodraeth Cymru o gynyddu cyfran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol fel defnyddwyr hyderus o'r Gymraeg.

4.38. Rydym wedi ystyried y safbwyntiau a rannwyd gan ymatebwyr ac rydym am fod yn glir nad oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ynghylch maint y cymhwyster hwn nac unrhyw gymhwyster newydd arall. Bydd maint cyffredinol y cymhwyster yn cael ei benderfynu wrth i ni weithio gyda rhanddeiliaid i bennu cynllun, cynnwys a dulliau asesu'r cymhwyster. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y cymhwyster o leiaf yr un maint â'r TGAU Cymraeg Ail Iaith bresennol.

4.39. Rhaid deall y gwelliant hwn i'n cynnig hefyd mewn perthynas â'n penderfyniad i greu cymhwyster ychwanegol ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Drwy wneud hyn, ein nod yw cefnogi dysgwyr sy'n dymuno symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu dysgu, tra ar yr un pryd yn cyfyngu ar y risg na fydd dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer unrhyw gymwysterau iaith Gymraeg oherwydd pryderon ynghylch cynnydd ym maint y prif gymhwyster TGAU.

4.40. Clywsom bryderon hefyd ynghylch gwerth, perthnasedd a phoblogrwydd y cymhwyster gan rai dysgwyr, rhieni a gofalwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gymharol isel. Teimlai rhai ymatebwyr y dylid rhoi mwy o bwyslais ar helpu dysgwyr i ddeall pwysigrwydd yr iaith a sut mae'n ffurfio rhan o'u hetifeddiaeth ddiwylliannol, ac y dylai astudio'r Gymraeg fel pwnc fod yn ddewisol. Awgrymwyd y dylem ystyried a oedd angen arholiad ffurfiol o gwbl i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn bennaf fel cyfrwng cyfathrebu. Er ein bod wedi ystyried y safbwyntiau hyn, nid ydym yn credu y byddai'r dulliau hyn yn mynd yn ddigon pell i gefnogi polisi Llywodraeth Cymru a'u disgwyliadau o'r Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â'r continwwm iaith.

4.41. Roedd aliniad â'r Cwricwlwm i Gymru, a sefydlu continwwm i'r Gymraeg hefyd yn bryder allweddol a godwyd gan aelodau Cymdeithas yr Iaith. Er eu bod yn cytuno â'n penderfyniad i ddod â'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith cyfredol i ben, roeddent yn anghytuno'n gryf â'n cynnig i ddisodli'r cymhwyster hwnnw

gydag un a luniwyd i'w astudio gan ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Yn eu barn nhw, dylid creu cymhwyster TGAU sengl yn y Gymraeg i'w astudio gan bob dysgwr; dull a fyddai yn eu barn nhw yn adlewyrchu egwyddor un continwwm o ddysgu Cymraeg yn well ac yn darparu ffordd gyson o fesur cynnydd a chyrhaeddiad.

4.42. Rydym am sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wneud y cynnydd gorau posibl ar hyd continwwm y Gymraeg. Mae angen i hyn adlewyrchu'r cyd-destun y maent yn datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg ynddo, a'r cysylltiad y maent wedi'i gael â'r Gymraeg. Mae'r gwahaniaethau presennol mewn lefelau hyfedredd rhwng dysgwyr mewn gwahanol leoliadau addysgol yn golygu na fyddai'n deg nac yn ymarferol ar hyn o bryd i bob dysgwr gael ei asesu trwy un cymhwyster. Wrth i'r cymhwyster a'r Cwricwlwm i Gymru ddod yn fwy sefydledig, byddwn yn ystyried a ddylid cynyddu galw'r cymhwyster i adlewyrchu a chefnogi lefelau cynyddol hyfedredd yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys ailasesu o bryd i'w gilydd yr achos dros gynnig sawl cymhwyster iaith Gymraeg.

4.43. Mae rhai rhanddeiliaid hefyd wedi dweud wrthym yr hoffent weld mwy o debygrwydd rhwng y cymwysterau Cymraeg y mae dysgwyr mewn gwahanol leoliadau addysgol yn eu dilyn. Wrth i ni weithio gyda rhanddeiliaid yng ngham nesaf y broses ddiwygio, byddwn yn archwilio sut y gall y cymhwyster newydd gysylltu'n fwy amlwg â'r TGAU a gynlluniwyd ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac â'r Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, mae'r TGAU Cymraeg Ail Iaith bresennol yn cyfuno elfennau o iaith a llenyddiaeth i alluogi dysgwyr i archwilio iaith at wahanol ddibenion, gan gynnwys ysgrifennu disgrifiadol, creadigol a dychmygus. Mae hyn yn rhywbeth efallai y byddwn am fwrw ymlaen ag ef gyda'r cymhwyster newydd.

4.44. Ers yr ymgynghoriad, rydym wedi parhau i gwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod eu nodau hirdymor o sefydlu fframwaith cyfeirio ar gyfer y Gymraeg a gydnabyddir yn rhyngwladol, fel CEFR[3]. Byddai'r fframwaith hwn yn cefnogi'r cysyniad o gontinwwm y Gymraeg a byddai'n helpu dysgwyr i weld sut mae eu cyflawniadau yn berthnasol i gymwysterau iaith eraill, gan gynnwys cymwysterau Cymraeg ôl-16.

4.45. Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn y nodau hyn ac yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda swyddogion a rhanddeiliaid eraill wrth i'r gwaith hwn ddatblygu. Byddwn yn mynd ati i ystyried sut y gallai pob un o'r cymwysterau Cymraeg newydd a ddatblygwn alinio â'r fframwaith cyfeirio

[3] https://www.commoneuropeanframework.org

Cymraeg, gan gynnwys y TGAU newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Penderfyniad 3: Byddwn yn creu cymhwyster ychwanegol newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg.

4.46. Byddwn yn creu cymhwyster newydd i ddarparu ymestyniad a her ychwanegol i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg.

4.47. Mae'r penderfyniad hwn yn disodli'r cynnig gwreiddiol a gyflwynwyd gennym yn ein hymgynghoriad. Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnig creu set o gymwysterau bach sgiliau iaith Gymraeg y gellir eu hastudio yn ychwanegol at gymhwyster TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm iaith ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg. Er bod diddordeb yn y cynnig hwn, cododd ymatebwyr hefyd rai pryderon yr ydym wedi eu hystyried wrth adolygu ein safbwynt. Amlinellir y rhain isod.

4.48. Yn yr ymgynghoriad, ymatebodd cyfanswm o 402 o bobl i'r cynnig hwn. Cytunodd bron i hanner (49%), tra bod ychydig llai na chwarter yn anghytuno. Wrth edrych ar is-grwpiau, roedd cyfran gymharol fach o ddysgwyr (7%) yn anghytuno'n gryf o gymharu â 22% o rieni a gofalwyr ac aelodau'r cyhoedd. Roedd gweithwyr proffesiynol addysgol yn gorwedd rhwng y ddau, gyda 14% yn anghytuno'n gryf. Rhoddodd 194 o bobl (48%) o'r rhai a atebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig.



4.49. Mewn cyferbyniad â'n dau gynnig arall yn ymwneud â chymwysterau Cymraeg, gwelsom lefel gymharol uchel o gytundeb ar gyfer ein cynnig i greu set o gymwysterau sgiliau iaith Gymraeg bach y gellir eu hastudio yn ychwanegol at gymhwyster TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm Cymraeg. Mae'n amlwg bod y cysyniad o gynnig cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau a'u hyder wedi apelio at nifer o ymatebwyr.

4.50. Roedd y rhai a gytunodd yn teimlo y gallai'r cymwysterau llai hyn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg llafar a gwella'u sgiliau Cymraeg ar gyfer cyflogaeth. Yn eu barn nhw, byddai hyn yn gwella hyder dysgwyr ac yn annog mwy o ddysgwyr i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar ôl troi'n 16 oed. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn ystyried bod darparu elfen o ddewis yn gadarnhaol, yn enwedig ar gyfer ymestyn a herio'r dysgwyr hynny sydd â dawn neu ddiddordeb penodol mewn dysgu iaith.

4.51. Gwelwyd hefyd bod creu set o gymwysterau Cymraeg bach, a gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg ddigidol, yn dangos arloesedd a pharodrwydd i newid y system bresennol. Fodd bynnag, mynegodd yr ymatebwyr hynny rywfaint o amheuaeth, gan nodi'r angen i alluogi cydraddoldeb o ran darpariaeth ar draws pob ysgol yng Nghymru er mwyn sicrhau nad yw rhai dysgwyr dan anfantais.

4.52. Er gwaethaf y cytundeb yn y meysydd hyn, roedd yn amlwg fod angen gofal wrth ddehongli'r data hwn. Gofynnodd llawer o ymatebwyr am eglurhad pellach i ddiben y cymwysterau bach hyn a'u perthynas â'r prif gymwysterau TGAU a gynigir.

4.53. Gwelsom hefyd rai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i'r cymwysterau bach hyn fel dewis arall yn lle'r cymhwyster un TGAU a hanner Cymraeg y cynigiwyd i'w astudio gan ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Nid dyna oedd ein bwriad gyda'r cynnig hwn; bwriadwyd bob amser i'r cymwysterau Cymraeg bach hyn gael eu cynllunio i'w hastudio gan ddysgwyr ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU Cymraeg newydd arfaethedig, ac i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm Cymraeg.

4.54. O'r rheini a oedd yn anghytuno, gwnaethant hynny am resymau gwahanol a chyferbyniol iawn. Yn sylfaenol, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r egwyddor o greu cymwysterau Cymraeg ychwanegol gan y canfyddwyd bod hynny'n dyrchafu'r Gymraeg dros Saesneg ac y byddai hynny'n arwain at lai o

amser addysgu o fewn y cwricwlwm ar gyfer pynciau eraill. Cafwyd galwadau hefyd am ddatblygu darpariaeth debyg ar gyfer Saesneg fel pwnc.

4.55. Mewn cyferbyniad, roedd ymatebwyr eraill yn anghytuno â'r cynnig hwn oherwydd gallai arwain at ostyngiad yn yr amser y mae dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn ei dreulio yn dysgu Cymraeg, a rhagor o ddysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau lefel is, a allai roi terfyn ar eu datblygiad a'u cyrhaeddiad. Nododd rhai o'r ymatebwyr hyn y byddai'n well ganddynt weld pob dysgwr yn astudio un cymhwyster cyfannol.

4.56. Gofynnodd ymatebwyr gwestiynau hefyd ynghylch pwrpas y cymwysterau llai hyn, beth fyddai'r berthynas rhyngddynt â'r cymwysterau TGAU arfaethedig, a sut y byddent yn rhyngweithio â nhw, ac a allai'r cymwysterau TGAU eu hunain gryfhau sgiliau Cymraeg penodol, a helpu dysgwyr i ddatblygu eu hyder fel defnyddwyr Cymraeg. I'r gwrthwyneb, roedd eraill yn teimlo y dylid cynllunio cymhwyster mwy sylfaenol ar gyfer dysgwyr nad yw cymwysterau TGAU yn cael eu hystyried yn briodol ar eu cyfer.

4.57. Ar ôl ystyried y safbwyntiau hyn, ac ar ôl gwneud rhagor o waith, rydym wedi diwygio ein penderfyniad mewn perthynas â'r gyfres hon o gymwysterau Cymraeg bach.

4.58. Byddwn nawr yn creu cymhwyster ychwanegol unigol ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a fydd yn ategu ac yn adeiladu ar y dysgu sy'n digwydd fel rhan o'r brif TGAU. Er na fyddwn yn pennu maint y cymhwyster ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd yn llai na TGAU. Mae'n debygol y byddai'r strwythur graddio yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer TGAU.

4.59. Prif ddiben y cymhwyster fydd ymestyn y dysgwyr hynny sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg. Wrth gefnogi dysgwyr sy'n gwneud cynnydd da, gwelwn y gallai llawer o ysgolion ddewis defnyddio'r cymhwyster hwn yn yr un modd ag y mae'r cymhwyster Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

4.60. Gwyddom hefyd y byddai rhai rhanddeiliaid yn hoffi gweld darpariaeth ychwanegol ar gyfer dysgwyr sydd eisoes wedi derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ond sydd wedi trosglwyddo i leoliad cyfrwng Saesneg. Gallai'r dysgwyr hyn elwa o ymestyniad a her ychwanegol y cymhwyster hwn a'r cyfle i ennill cydnabyddiaeth am lefelau eu sgiliau a'u hyfedredd yn y Gymraeg.

4.61. Cynllunnir y cymhwyster i adeiladu ar yr addysgu a'r dysgu sy'n digwydd yn y prif gymhwyster TGAU Cymraeg, gan barhau i bwysleisio'r elfennau siarad a gwrando er mwyn helpu dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus. Er mwyn adeiladu ar y datblygiad sgiliau hwn, bydd y ffocws allweddol ar ddarparu profiadau dysgu ystyrlon ychwanegol, a bydd y cymhwyster yn cael ei strwythuro i hybu defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau dysgu dilys.

4.62. Wrth strwythuro'r cymhwyster yn y modd hwn, y bwriad yw darparu cymorth ymarferol fel bod dysgwyr yn gallu gweld perthnasedd byd go iawn wrth symud ymlaen yn eu sgiliau Cymraeg. O ystyried profiadau gwahanol dysgwyr ledled Cymru, byddai hefyd yn helpu i sicrhau mwy o gydraddoldeb yn y cyfleoedd i ddod ar draws y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

4.63. Bydd y cymhwyster ychwanegol hwn yn cefnogi'r continwwm Cymraeg. Mae'n cydnabod bod dysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu sgiliau iaith ar gyflymder gwahanol ac yn cefnogi'r rhai sy'n darparu darpariaeth Gymraeg i helpu dysgwyr i ddatblygu yn eu hyfedredd yn y Gymraeg yn unol â'u lefelau gallu. Gallai'r ffocws ar ddarparu profiadau dysgu dilys i ddysgwyr helpu i ddarparu profiadau a rennir rhwng y rheini mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a'r rhai sydd wedi caffael Cymraeg drwy gael eu trochi yn yr iaith. Mae cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddysgwyr sy'n gallu, ac sydd eisiau, datblygu eu sgiliau i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn hanfodol os ydym am gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus yng Nghymru.

4.64. Gallai'r cymhwyster hefyd hyrwyddo llwybrau dilyniant i astudio Safon Uwch. Gallai helpu i godi hyder dysgwyr a'u helpu i weld ymarferoldeb a pherthnasedd y sgiliau iaith y maent yn eu hennill fel rhan o'r TGAU. Wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf y broses ddiwygio, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried y cyfleoedd posibl ar gyfer cefnogi dilyniant. Er enghraifft, gellid llunio'r cymhwyster i gyd-fynd â chymhwyster Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith drwy gynnwys agweddau fel canolbwyntio ar ramadeg a siarad a defnyddio'r Gymraeg yn y gymdeithas gyfoes.

4.65. Wrth drafod yr argymhelliad hwn gyda rhanddeiliaid, awgrymodd rhai ohonynt rai ffyrdd amgen posibl o ddarparu ymestyniad a her ychwanegol. Mae'r dewisiadau amgen hyn yn cynnwys dysgwyr yn sefyll TGAU Cymraeg ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg yn gynnar ac yna'n mynd ymlaen i astudio naill ai'r TGAU a gynlluniwyd ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, neu'r cymhwyster UG Cymraeg Ail Iaith. Rydym wedi ystyried yr opsiynau hyn ond credwn eu bod yn peri problemau. Nid oes gan bob ysgol gyfrwng Saesneg y

capasiti a'r gallu addysgu angenrheidiol i gyflwyno'r naill na'r llall o'r cymwysterau mwy heriol hyn. Hyd yn oed yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg hynny a allai gynnig un o'r cymwysterau hyn, mae'n annhebygol y byddai dysgwyr yn cael digon o amser i gwblhau'r cymwysterau ychwanegol hyn. Mae'r TGAU wedi'i chynllunio i'w hastudio dros ddwy flynedd; ac er bod yr UG yn gyffredinol yn gymhwyster mwy na TGAU fe'i cynlluniwyd i'w gwblhau mewn blwyddyn. Mae gennym bryderon hefyd am effaith andwyol bosibl pobl ifanc 14-16 oed yn sefyll cymhwyster sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer dysgwyr ôl-16. At hynny, nid yw'n glir sut y gallai'r opsiwn hwn gefnogi dysgwyr i barhau â'u hastudiaeth o'r Gymraeg. Gallai arwain at gyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer parhau â'r Gymraeg ar ôl 16 oed.

4.66. Gwyddom y gallai rhai rhanddeiliaid ystyried nad yw cymhwyster ychwanegol sy'n targedu nifer gymharol fach o ddysgwyr yn mynd yn ddigon pell. Mae rhai rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw'n teimlo y dylai'r prif ffocws fod ar wella addysgu a dysgu Cymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw trwy TGAU fwy o faint a mwy heriol i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Rydym wedi ystyried y farn hon, fodd bynnag ar ôl pwyso a mesur, ac ar ôl dadansoddi'r adborth a gawsom drwy gydol y broses ymgynghori, nid ydym yn credu bod yr opsiwn hwn yn gyraeddadwy ar hyn o bryd. Fel y crybwyllwyd eisoes, wrth i'r Cwricwlwm i Gymru a'r cymwysterau Cymraeg newydd gael eu hymgorffori, byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa i weld a oes angen sawl cymhwyster â dibenion gwahanol o hyd i gefnogi anghenion dysgwyr a bodloni disgwyliadau'r cwricwlwm.

5. Camau nesaf

5.1. Wrth i ni symud ymlaen i'r cam nesaf yn y broses ddiwygio, byddwn yn parhau i gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein penderfyniadau'n cyd-fynd â chyfeiriad polisi ar gyfer y Gymraeg.

5.2. Byddwn yn defnyddio'r un dull o lunio cynnwys ac asesu'r cymwysterau Cymraeg newydd ag sydd wedi'i sefydlu ar gyfer cymwysterau TGAU eraill y dyfodol a chymwysterau cysylltiedig a wnaed i Gymru. Mae hyn yn golygu cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r sector addysg ar bob lefel: fel rhan o'r gweithgorau lefel pwnc sy'n edrych ar gymwysterau unigol; mewn grwpiau rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; ac fel rhan o grŵp cyfeirio rhanddeiliaid ehangach i ystyried cynigion sy'n dod i'r amlwg yn eu cyfanrwydd ac i sicrhau cydlyniad o fewn y Maes hwn a'r Meysydd eraill.

5.3. Mae CBAC wedi ymrwymo i weithio gyda ni i ddatblygu ystod y cymwysterau TGAU a wnaed i Gymru a chymwysterau cysylltiedig eraill yn y dyfodol, gan gynnwys y cymwysterau Cymraeg newydd.

5.4. Unwaith y bydd ein gwaith ymgysylltu cychwynnol â rhanddeiliaid ar gynnwys lefel uchel a dulliau asesu'r cymwysterau Cymraeg wedi'u cwblhau yn haf 2022, byddwn yn ceisio adborth yn nhymor yr hydref.

5.5. Ein nod yw datblygu a chymeradwyo'r cymwysterau Cymraeg newydd erbyn Medi 2024. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i ysgolion baratoi ac ymgyfarwyddo â nhw yn barod ar gyfer eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2025.

6. Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Cyflwyniad

6.1. Mae Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn asesiad o effeithiau tebygol gweithgaredd rheoleiddio. Rhaid i ni gyflawni ein gweithgareddau rheoleiddio mewn ffordd sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur, wedi'i thargedu ac yn gyson, a rhoi sylw i bolisi'r llywodraeth fel y cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

6.2. Drwy ein AEI, rydym yn dangos ein bod yn rheoleiddio yn unol â'n prif nodau, a'r wyth mater y mae'n rhaid i ni eu hystyried, fel y'u hamlinellir yn Neddf Cymwysterau Cymru (2015),[4] yn ogystal ag yn unol ag egwyddorion gwell rheoleiddio[5] a chanllawiau Trysorlys EM.

6.3. Mae'r adran hon yn nodi ein AEI o'r penderfyniadau yr ydym yn eu hamlinellu yn y ddogfen hon. Mae'n cynnwys crynodeb o'n Hasesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

6.4. Mae'r adran hon ond yn cyfeirio at y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud mewn perthynas â chymwysterau Cymraeg y dyfodol. Gwnaethom gynnwys AEI llawn mewn perthynas â'n penderfyniadau ar y gyfres gyffredinol o gymwysterau TGAU yn y dyfodol a chymwysterau cysylltiedig a wnaed i Gymru pan wnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Penderfyniadau ym mis Hydref 2021.

[4] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/5/contents/enacted

[5] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/735587/better-regulation-framework-guidance-2018.pdf

6.5. Er mwyn gwneud ein penderfyniadau ar gymwysterau Cymraeg y dyfodol, gwnaethom gynnal asesiad effaith trylwyr o'r holl opsiynau a oedd ar gael i ni. Nid yw'r adran hon ond yn trafod effeithiau'r opsiynau yr ydym yn bwrw ymlaen â nhw.

6.6. Rydym wedi ystyried llawer o ffynonellau tystiolaeth fel rhan o'n dull o asesu effaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) ystod lawn o adolygiadau a dogfennau rheoleiddio sy'n ymwneud â chymwysterau Cymraeg;
b) adborth o ystod eang o ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys:

- CBAC
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Consortia Addysg Rhanbarthol
- CYDAG
- Cymdeithas yr Iaith
- Cynrychiolwyr addysg uwch gan gynnwys adrannau HCA
- Dysgwyr
- Estyn
- Llywodraeth Cymru
- Rhwydwaith Seren
- Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- Timau arweinyddiaeth ysgolion
- Ymarferwyr Cymraeg o leoliadau cyfrwng Saesneg

c) ymchwil a gomisiynwyd gan arbenigwyr asesu;
ch) adolygiad pen desg o ystod o fanylebau a dogfennau eraill ar gyfer ystod eang o gymwysterau iaith ar lefelau amrywiol, gan gynnwys manylebau Safon Uwch;
d) data ardystio a gasglwyd gan Cymwysterau Cymru i nodi maint y farchnad ac effaith bosibl ddilynol ein camau rheoleiddio.

6.7. Mae'r penderfyniadau a drafodwn yn yr adran hon yn ymwneud â'r set o dri chymhwyster Cymraeg y byddwn yn eu creu i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, sef:

- Byddwn yn cyfuno iaith a llenyddiaeth ac yn creu TGAU integredig newydd yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

- Byddwn yn dod â TGAU Cymraeg Ail Iaith i ben ac yn creu TGAU newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.
- Byddwn yn creu cymhwyster ychwanegol newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.8. Er mwyn gwneud ein penderfyniadau, gwnaethom gynnal asesiad o effeithiau tebygol ystod o opsiynau, gan gynnwys yr opsiwn o aros gyda'r cymwysterau Cymraeg presennol. Roedd ein hasesiad yn cynnwys ystyried y prif effeithiau negyddol a chadarnhaol a nodwyd gennym ar gyfer amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, ymarferwyr, cyrff dyfarnu, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach.

6.9. Yn gyffredinol, mae ein hasesiad yn dangos ein bod yn credu bod manteision y dull sy'n cael ei ffafrio gennym yn drech na'r anfanteision neu'r risgiau. Lle rydym wedi nodi anfanteision posibl, rydym hefyd wedi nodi ffyrdd o leihau'r risgiau posibl hyn. Felly credwn mai'r hyn yr ydym yn ei gynnig yw'r ffordd gywir o weithredu a'i fod yn gymesur.

Effaith ar ddysgwyr

6.10. Mae anghenion a diddordebau dysgwyr yn flaenllaw yn ein holl gamau rheoleiddio, a dyma'r prif resymau dros wneud y penderfyniadau rydym wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

6.11. Mae ein penderfyniadau yn adlewyrchu ein bwriadau i alinio cymwysterau Cymraeg ag uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr.

6.12. Trwy gyfuno iaith a llenyddiaeth i greu TGAU integredig newydd yn y Gymraeg, ein nod yw cefnogi mwy o ddysgwyr i adnabod y cysylltiadau a'r synergeddau rhwng iaith a llenyddiaeth. Mae ein penderfyniad yn golygu y bydd mwy o ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn dod i gysylltiad â llenyddiaeth ar ôl 14 oed, gan mai fel opsiwn yn unig y cynigir TGAU Llenyddiaeth Gymraeg mewn rhai ysgolion ar hyn o bryd. Mae yna ddisgwyliad yn y Cwricwlwm i Gymru fod pob dysgwr yn cael mynediad at bob datganiad o'r hyn sy'n bwysig hyd at 16 oed, ac mae hyn yn cynnwys

caniatáu i ddysgwyr brofi sut ‘mae llenyddiaeth yn tanio’r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd’[6].

6.13. Mae’r penderfyniad hwn yn adlewyrchu’r dull yr ydym yn ei ddefnyddio i greu TGAU integredig newydd yn Saesneg, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael yr un cyfleoedd i archwilio iaith drwy lenyddiaeth yn y ddwy iaith. Gan fod llenyddiaeth yn cysylltu pob iaith, bydd ein penderfyniad hefyd yn helpu dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng dysgu Cymraeg ac ieithoedd eraill, gan ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith trosglwyddadwy a hyrwyddo cysylltiadau trwy brofi eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill.

6.14. Mae integreiddio iaith a llenyddiaeth Gymraeg mewn un cymhwyster hefyd yn cynyddu’r cyfleoedd i ddysgwyr wneud dewisiadau am gymwysterau eraill y maent am eu hastudio o fewn cwricwlwm eang a chytbwys.

6.15. Wrth wneud y penderfyniad hwn, gwnaethom hefyd ystyried lefelau ymgysylltiad dysgwyr a pha mor hylaw yw'r cymhwyster. Mae integreiddio'r pynciau yn rhoi cyfleoedd i arloesi neu ddiweddaru cynnwys a dulliau asesu. Er enghraifft, gellid gwneud cysylltiadau mwy amlwg rhwng y testunau nas gwelwyd o’r blaen mewn arholiadau iaith a’r testunau llenyddiaeth y mae dysgwyr yn eu hastudio. Byddai hyn yn helpu dysgwyr i roi rhai o'r testunau nas gwelwyd o'r blaen yn eu cyd-destun a'u cysylltu'n gryfach ag agweddau eraill ar y cymhwyster. Enghraifft arall fyddai darparu cyfleoedd i ysgrifennu’n greadigol mewn ymateb i destun llenyddol. Gallai camau fel y rhain arwain at ddull mwy cyfannol o asesu a lleihau’r baich asesu.

6.16. Mae diwygio cymwysterau yn anochel yn dod ag elfen o risg, ac rydym yn ymwybodol y gallai rhai dysgwyr fod yn bryderus ynghylch sut y gallai newid effeithio ar ganfyddiadau o'r cymhwyster. Efallai y bydd gan ddysgwyr bryderon penodol ynghylch sut y bydd y cymhwyster newydd yn parhau i gefnogi dilyniant i astudiaeth bellach, gan gynnwys i brifysgol. Rydym wedi siarad â Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) ac rydym yn hyderus na fydd y penderfyniad hwn yn cael effaith negyddol ar ddilyniant. Mae integreiddio iaith a llenyddiaeth o fewn cymwysterau yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddir yn rhyngwladol ac ar lefel Addysg Uwch ac yn adlewyrchu strwythur y cymhwyster Safon Uwch Cymraeg. Rydym wedi cynnal ymchwil yn y maes hwn

[6] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig

a byddwn yn parhau i ymgysylltu â SAUau wrth i ni weithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu ar gynllun a chynnwys y cymhwyster.

6.17. Ein prif nod wrth greu cymhwyster Cymraeg newydd i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yw cefnogi pob dysgwr i wneud y cynnydd gorau posibl ar hyd y continwwm Cymraeg. Rydym am i bob dysgwr yng Nghymru ddod yn siaradwyr hyderus ac yn ddefnyddwyr y Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i helpu dysgwyr i ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg ar gyflymder sy'n iawn iddyn nhw.

6.18. Gwyddom fod angen i gymwysterau fod yn uchelgeisiol os ydynt am gefnogi polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol fel defnyddwyr Cymraeg hyderus. Ond mae angen i ni gydnabod hefyd bod angen i'r newidiadau ddigwydd yn gynyddrannol a thros amser i gefnogi dysgwyr wrth iddynt addasu i'r newidiadau hynny.

6.19. Credwn yn gryf fod y diwygiadau sydd eisoes wedi'u cyflwyno gyda'r TGAU Cymraeg Ail Iaith bresennol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Nod ein penderfyniad yw adeiladu ar y gwelliannau hyn a chynyddu'r her a'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr yn y ffordd decaf a mwyaf cyraeddadwy. Gallai cyflwyno cymhwyster sy'n gofyn gormod yn rhy gyflym effeithio ar ymgysylltiad y dysgwr a chreu ymdeimlad annheg o dangyflawni neu fethiant.

6.20. Trwy ddileu cysyniad a therminoleg 'Cymraeg ail iaith', rydym yn anelu at annog pob dysgwr i weld ei hun fel siaradwr Cymraeg sy'n gwneud cynnydd yn ei hyfedredd yn y Gymraeg ac yn parhau ar hyd y continwwm Cymraeg.

6.21. Mae'r cymhwyster ychwanegol yr ydym yn ei greu yn cefnogi'r dysgwyr hynny sy'n gwneud cynnydd da yn eu hastudiaeth o'r Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Bydd yr ymestyniad a'r her ychwanegol yn cefnogi'r dysgwyr hyn i symud ymlaen yn gyflymach ar hyd y continwwm Cymraeg gan sicrhau ar yr un pryd fod y cymhwyster TGAU yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch. Mae hyn yn helpu i sicrhau cyfle teg a chyfartal i bob dysgwr gyflawni yn y Gymraeg.

6.22. Bydd y cymhwyster ychwanegol yn cael ei gynllunio i ategu'r dysgu sy'n digwydd yn y cymhwyster TGAU. Drwy ganolbwyntio ar brofiadau dysgu dilys a diddorol, y nod yw i fwy o ddysgwyr weld gwerth a pherthnasedd y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn caniatáu profiadau a

rennir rhwng y rheini mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a'r rhai sydd wedi caffael y Gymraeg drwy gael eu trochi yn yr iaith.

6.23. Gan mai ysgolion yn y pen draw sy'n dewis pa gymwysterau i'w cynnig i ddysgwyr, mae risg na fydd pob dysgwr yn elwa ar y cyfle i astudio'r cymhwyster ychwanegol, yn enwedig pan gaiff ei gyflwyno gyntaf. Wrth i ni symud ymlaen i'r cam nesaf yn y broses ddiwygio, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r cymhwyster a'i werth a'i berthnasedd i ddysgwyr ac athrawon.

Effaith ar athrawon ac ysgolion

6.24. Gwyddom fod integreiddio iaith a llenyddiaeth yn newid sylweddol i rai athrawon. Fodd bynnag, ar ôl asesu effeithiau'r penderfyniad hwn, mae'r manteision, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad hwn, yn drech na'r anfanteision. Er enghraifft, mae'r penderfyniad hwn yn galluogi ysgolion i gynnig dewis ehangach o gymwysterau i ddysgwyr, gan adlewyrchu ethos cwricwlwm eang a chytbwys.

6.25. Wrth greu cymwysterau i gyd-fynd â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y Gymraeg, ein nod yw helpu i gadarnhau statws y Gymraeg fel pwnc mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

6.26. Gan adeiladu ar gryfderau a llwyddiannau diwygiadau diweddar, ein nod yw parhau i archwilio ffyrdd o wneud cymwysterau Cymraeg yn berthnasol, yn bleserus ac yn ddiddorol, a thrwy hynny wella profiad dysgwyr ac athrawon.

6.27. Rydym yn gwerthfawrogi y gallai fod gan rai athrawon bryderon ynghylch sut y gellid gweithredu'r cymhwyster ychwanegol ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg ar waith yn ymarferol. Wrth i ni symud ymlaen i'r cam nesaf yn y broses ddiwygio, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried hydrinedd. Er enghraifft, byddwn yn gweithio gydag athrawon a CBAC i archwilio ffyrdd o ganolbwyntio ar ymreolaeth dysgwyr ac astudio annibynnol. Byddwn hefyd yn ystyried rôl adnoddau digidol a mewnbwn gan gyrff allanol. Wrth alinio'r cymhwyster i'r brif TGAU, ein bwriad yw cefnogi athrawon wrth iddynt wahaniaethu o fewn y dosbarth.

6.28. Gwyddom fod hwn yn faes cymhleth a sensitif o ran diwygio cymwysterau. Er mwyn cefnogi gweithrediad llwyddiannus y cymwysterau Cymraeg newydd, bydd angen strategaethau i gyfathrebu'r newidiadau yn effeithiol. Wrth i ni

symud ymlaen, byddwn yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid i godi ymwybyddiaeth o ddiben a gwerth y cymwysterau er mwyn rhoi sicrwydd a hyder. Mae hyn yn cynnwys helpu ysgolion i weld sut y gall y cymwysterau gyfrannu at fodloni gofynion statudol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg.

Llywodraeth Cymru

6.29. Wrth asesu effaith ein penderfyniadau, rydym wedi ystyried sut y gall y cymwysterau Cymraeg newydd gyfrannu at ddull cenedlaethol sy'n anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn parhau i gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein penderfyniadau'n adlewyrchu disgwyliadau'r cwricwlwm a nodau strategol ehangach.

6.30. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at ei nodau hirdymor o sefydlu fframwaith cyfeirio ar gyfer y Gymraeg a gydnabyddir yn rhyngwladol, yn debyg i'r CEFR, i gefnogi continwwm y Gymraeg. Wrth benderfynu sut y caiff y cymwysterau newydd eu cynllunio a'u hasesu, byddwn yn ystyried yn weithredol sut y gallant alinio â'r fframwaith cyfeirio arfaethedig i'r Gymraeg. Ein nod fydd annog dysgwyr i weld sut mae eu cyflawniad yn berthnasol i gymwysterau iaith eraill, gan gynnwys cymwysterau Cymraeg ôl-16 i helpu gyda'r pontio i fyd gwaith.

6.31. Credwn y bydd y cymwysterau y byddwn yn eu darparu yn atgyfnerthu uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol a bod ysgolion yn barod ar gyfer gweithredu'r newidiadau.

Effaith ar CBAC

6.32. Gwyddom y gallai gwneud newidiadau i'r cymhwyster Cymraeg a gynigir arwain at gostau ychwanegol i'r corff dyfarnu. Byddwn yn gweithio gyda CBAC i asesu'r effeithiau, gan gynnwys unrhyw gynnydd posibl mewn costau cyffredinol, yn ogystal ag unrhyw fanteision.

6.33. Yn ein prif adroddiad penderfyniadau, amlinellwyd yr asesiad yr ydym wedi'i wneud hyd yn hyn mewn perthynas ag effaith ein cyfres arfaethedig o gymwysterau TGAU a wnaed i Gymru a chymwysterau cysylltiedig eraill. Credwn y dylai'r rhain fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn y tymor hir i CBAC eu

cynnig. Mae hyn oherwydd y dylai incwm ffioedd o'r niferoedd uchel sy'n astudio cymwysterau TGAU fel mathemateg, gwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg wneud iawn am y cymwysterau hynny a allai ddenu llai o ddysgwyr. Mae hyn wedi'i gadarnhau gan ein dadansoddiad cost a budd cychwynnol sy'n awgrymu, ar draws ein holl gynigion, fod y costau â gwerth ariannol yn niwtral o ran cost ar y cyfan.

6.34. Rydym yn cydnabod bod cyflwyno'r cymhwyster ychwanegol newydd yn dod â lefel o ansicrwydd i CBAC gan y gallai'r nifer sy'n manteisio arno fod yn isel yn y cyfnod cychwynnol. Mater i ysgolion fydd penderfynu a ydynt am gynnig y cymhwyster ychwanegol newydd ai peidio. Byddwn yn gweithio gyda CBAC i gyfleu gwerth y cymhwyster a'i natur gyfredol yn ofalus i ddysgwyr a'u hathrawon.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

6.35. Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb i nodi a yw ein penderfyniadau'n debygol o gael unrhyw effaith (cadarnhaol neu negyddol) neu effeithiau gwahanol ar wahanol grwpiau sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a nodir gan Ddeddf Cydraddoldeb (2010).[7]

6.36. Mae tegwch yn ystyriaeth graidd yn ein gwaith, ac er ein bod yn gwybod na all cymwysterau ynddynt eu hunain fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau neu'r annhegwch sy'n bodoli yn y system addysg neu yn y gymdeithas yn ehangach, rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i'w hatal rhag ychwanegu anfantais neu waethygu'r anfanteision presennol.

6.37. Wrth ystyried y set o gymwysterau Cymraeg a ddylai fod ar gael i ddysgwyr yn y dyfodol, rydym wedi bod yn glir ein bod am i bob dysgwr gael y cyfleoedd gorau posibl i symud ymlaen ar hyd y continwwm Cymraeg ar y cyflymder sy'n iawn iddyn nhw. Rydym am i bob dysgwr deimlo'n hyderus fel siaradwyr a defnyddwyr y Gymraeg, o'r rhai â sgiliau Cymraeg sylfaenol i'r rhai â hyfedredd yn y Gymraeg. Credwn fod y set o gymwysterau a gynigiwn yn sicrhau mynediad cyfartal a lefel briodol o her a gwybodaeth ar gyfer yr holl anghenion a diddordebau dysgu.

[7] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-deddf-cydraddoldeb-2010-dyletswyddau-statudol-cymru-2011

6.38. Wrth benderfynu creu TGAU integredig newydd yn y Gymraeg i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, rydym wedi ystyried yr effaith ar ddysgwyr o ystod o lefelau gallu i sicrhau nad yw'r penderfyniad yn effeithio'n annheg ar unrhyw grŵp o ddysgwyr. Ein bwriad yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at yr holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig hyd at 16 oed, fel y nodir yng Nghanllawiau'r Cwricwlwm.

6.39. Gwyddom fod dysgwyr ledled Cymru yn cael profiadau gwahanol o ddysgu Cymraeg, ac mae hyn wedi llywio ein penderfyniadau mewn perthynas â'r cymwysterau a ddylai fod ar gael i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Rydym wedi ystyried yr angen i sicrhau bod dysgwyr o gefndiroedd daearyddol gwahanol yn cael yr un cyfleoedd i elwa ar gymwysterau Cymraeg. Rydym wedi gwrando ar bryderon a rannwyd gyda ni gan randdeiliaid sy'n byw mewn rhanbarthau lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gymharol isel, ac rydym wedi archwilio ffyrdd o sicrhau y gellir cefnogi pob dysgwr i brofi a defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd go iawn, dilys.

6.40. Wrth i ni symud ymlaen i'r cam nesaf yn y broses ddiwygio, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y cynllun, y cynnwys a'r trefniadau asesu yn cyfyngu ar y rhwystrau y gall dysgwyr eu hwynebu oherwydd gwahaniaethau daearyddol.

6.41. Credwn y bydd ein penderfyniadau yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ar sail eu hoedran, gan ddarparu cyfleoedd iddynt symud ymlaen ymhellach yn eu sgiliau iaith Gymraeg trwy astudio cymwysterau sydd wedi'u cynllunio i fod yn briodol i'w hoedran.

6.42. Er nad ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth i awgrymu y bydd ein penderfyniadau yn effeithio ar ddysgwyr o rai cefndiroedd economaidd-gymdeithasol, byddwn yn cynnal asesiadau effaith pellach wrth i ni weithio gyda rhanddeiliaid ar gynllun yr holl gymwysterau Cymraeg newydd, ac yn ystyried effaith unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â'u dyluniad ar y grwpiau hyn wrth i ni fonitro'r cymwysterau yn y dyfodol.

6.43. Nid ydym ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf CD)[8], ond rydym yn ystyried sut mae ein rôl yn cefnogi ei diben, a sut mae ei gofynion yn gydnaws â sut rydym yn gweithio.

[8] https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

O'r herwydd, rydym wedi dewis mabwysiadu ei darpariaethau yn wirfoddol i danategu sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau, ac felly wedi gosod ein hamcanion llesiant ein hunain, gan ymgorffori'r rhain yn ein Fframwaith a'n Dull Rheoleiddio.

6.44. Rydym felly wedi ystyried effeithiau ein penderfyniadau ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol, yn unol â phum ffordd o weithio'r Ddeddf a'i saith nod llesiant. Mae ein penderfyniadau ar gyfer cymwysterau Cymraeg yn adlewyrchu ein hymrwymiad i Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, ac i helpu dysgwyr i deimlo'n hyderus wrth gyfrannu at y nod hwn. Wrth fabwysiadu ein dull rheoleiddio, rydym wedi ceisio gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac eraill i egluro ein nodau a'n huchelgeisiau hirdymor. Bydd y blaenoriaethau hyn yn helpu i lywio ein gwaith wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf y broses ddiwygio.

6.45. Wrth baratoi ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod cam nesaf ein gwaith, byddwn yn mabwysiadu dull cyson o ymdrin â'r cymwysterau TGAU eraill a'r cymwysterau a wnaed i Gymru cysylltiedig yr ydym yn eu diwygio. Rydym wedi cynhyrchu cyfres o bapurau sy'n archwilio ein blaenoriaethau cynllunio ac asesu. Mae'r gyfres hon yn cynnwys papur sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â chydraddoldebau, hygyrchedd, cynwysoldeb, amrywiaeth a chenedlaethau'r dyfodol a sut y dylid eu hymgorffori yn natblygiad cymwysterau'r dyfodol. Gyda hynny mewn golwg, rydym wedi ymrwymo i gael dull agored a chydweithredol sy'n rhoi pwyslais ar gyd-adeiladu wrth ddatblygu cymwysterau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol.

6.46. Credwn y bydd ein cynigion ar gyfer cynllunio'r cymhwyster yn cael effaith gadarnhaol ar bob dysgwr. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

6.47. Trwy gydol y ddogfen hon, rydym wedi darparu sail resymegol ar gyfer ein penderfyniadau mewn perthynas â chymwysterau Cymraeg yn y dyfodol sy'n cynnwys canlyniadau ein hasesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg.

6.48. Rydym wedi bod yn glir ynghylch ein hymrwymiad i gefnogi polisi Llywodraeth Cymru o sefydlu continwwm iaith Gymraeg, yn ogystal â nodau strategol ehangach mewn perthynas â'r Gymraeg.

6.49. Wrth wneud ein penderfyniadau, gwnaethom ystyried yn llawn yr holl opsiynau sydd ar gael i ni yn unol â bwriadau polisi presennol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i asesu effeithiau posibl ein penderfyniadau ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf ein gwaith.

ISBN 978-1-912608-18-8